# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Targedau a chyllidebau: cwmpas a phrif gysyniadau*

### 34 Allyriadau net Cymru

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "allyriadau net Cymru" o nwy tŷ gwydr am gyfnod yw swm allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod, wedi ei ostwng yn ôl swm echdyniadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod.

(2) Ystyr "allyriadau Cymru" o nwy tŷ gwydr yw—

(a) allyriadau o'r nwy hwnnw o ffynonellau yng Nghymru, a

(b) allyriadau o'r nwy hwnnw o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol sy'n cyfrif fel allyriadau Cymru yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 35.

(3) Ystyr "echdyniadau Cymru" o nwyon tŷ gwydr yw echdyniadau o'r nwy hwnnw o'r atmosffer o ganlyniad i ddefnydd tir yng Nghymru, newid mewn defnydd tir yng Nghymru neu weithgareddau coedwigaeth yng Nghymru.

(4) Rhaid i symiau allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwy tŷ gwydr ar gyfer cyfnod gael eu penderfynu yn gyson ag arferion rhyngwladol adrodd ar garbon, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 34 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/05/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 34.